

# Grantiau Ailddychmygu

Canllawiau i ymgeiswyr

Art Fund_

1. Gwybodaeth 2
2. Cefndir 3
3. Cyn i chi wneud cais 4
4. Eich cais 8
5. Beth sy'n digwydd nesaf 9
6. Bod yn rhan o'n rhwydwaith 13
7. Telerau ac amodau 14



Family workshop © The Foundling Museum

Art Fund_

Mae Grantiau Ailddychmygu yn cael eu hariannu gan Art Fund gyda chefnogaeth gan ymddiriedolaethau ac unigolion hael.

# 1. Gwybodaeth

Nod rhaglen Ailddychmygu yw ysbrydoli creadigrwydd a chynyddu gwytnwch yn y sector. Mae'n cefnogi sefydliadau i ddatblygu neu adnewyddu eu gwaith mewn ymateb i'w sefyllfa bresennol.

Drwy raglen Ailddychmygu, gallwn ddarparu grantiau o hyd at £50,000 ar gyfer prosiectau sydd:

- yn arloesol
- yn benodol i gyd-destun
- yn cael traweffaith
- yn ymgysylltu

Gyda rhai eithriadau (a ddisgrifir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon), mae grantiau Ailddychmygu yn gynhwysfawr ac yn bragmataidd; dylent allu talu'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau creadigol. Mae'r cyllid yn darparu gofod i arbrofi gyda syniadau a dulliau newydd, neu i ailedrych ar waith pwysig sydd wedi'i ohirio. Mae hefyd yn rhoi caniatâd i 'fethu', gan annog sefydliadau i gymhwyso'r hyn maent wedi'i ddysgu drwy raglen Ailddychmygu i weithgarwch yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn disgrifio'r rhaglen yn fanwl; bydd yn eich helpu i benderfynu a yw'r grantiau hyn yn addas i chi a'ch prosiect.

Fel cyllidwr, ein nod yw bod yn eglur ac yn hyblyg. Os cewch unrhyw broblemau wrth wneud cais am grant, e-bostiwch programmes@artfund.org i gael cymorth.



Visitors at The Box, Plymouth, August 2021 © Janie Airey/ Art Fund 2021

# 2. Cefndir

Mae grantiau Ailddychmygu yn cael eu siapio mewn ymgynghoriad â'r sector; rydym yn ddiolchgar i chi am gymryd rhan mewn sgyrsiau ac am gyfrannu at ymchwil. Ers 2020, mae'r rhaglen wedi esblygu i ddarparu ymateb cyflym i'r anghenion mwyaf dybryd, gan gynnig cymorth brys yn ystod y pandemig, ailadeiladu cynulleidfaoedd ar ôl y pandemig, cynnal gweithluoedd a sicrhau gweithluoedd mwy amrywiol, a datblygu partneriaethau strategol.

Rhoddodd ein harolwg o gyfarwyddwyr amgueddfeydd yn 2024 gipolwg ar yr heriau sylweddol sy'n wynebu'r sector. Roedd amgueddfeydd ac orielau yn brwydro yn erbyn costau cynyddol, toriadau uniongyrchol, seilwaith sy'n methu, pwysau ar y gweithlu a phrinder cyllid. Roedd sefydliadau sy'n dibynnu ar gefnogaeth awdurdodau lleol o dan straen neilltuol. Dywedodd llawer o gyfarwyddwyr wrthym fod y sefyllfa'n anghynaladwy.

Er mwyn sicrhau'r traweffaith mwyaf posibl a mynd i'r afael â'r anawsterau mwyaf brys mewn ffordd adeiladol, cafodd grantiau Ailddychmygu eu neilltuo ar gyfer amgueddfeydd ac orielau sy'n ddibynnol ar awdurdodau lleol yn 2024. Roedden ni'n falch iawn o allu cefnogi 20 o sefydliadau ledled gwledydd Prydain i ailddychmygu eu dull o weithio mewn partneriaethau, gan eu galluogi i arloesi, i hybu eu heffeithlonrwydd a'u gwytnwch, ac i eiriol yn well drostyn nhw'u hunain yn y gymdeithas.

Fel mae'r prosiectau hyn yn tystiolaethu, mae'r sector yn parhau i ddangos uchelgais, cryfder ac ysbryd entrepreneuraidd yn wyneb pwysau amlweddog sy'n parhau. Mae adroddiad arolwg y cyfarwyddwyr yn manylu ar raddfa'r heriau sy'n wynebu amgueddfeydd ac orielau, ond mae hefyd yn tynnu sylw at arwyddion o obaith ac yn amlygu cyfleoedd allweddol ar gyfer datblygu. Rôl Art Fund yw hyrwyddo ac ychwanegu gwerth i'r sector, gan gynnig cefnogaeth uniongyrchol a gweithio ar yr un pryd i ganfod atebion ar raddfa fwy.

Eleni, bydd rhaglen Ailddychmygu yn canolbwyntio ar gasgliadau, gan archwilio sut gall gwrthrychau gyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynulleidfaoedd a sgiliau, gwytnwch sefydliadol, dysgu ar y cyd, a mwy o gydnabyddiaeth i'r sector. O ystyried ein pwyslais, bydd y grantiau ar gael i sefydliadau sy'n dal casgliadau parhaol. Nid yw'r cyllid bellach wedi'i gyfyngu i amgueddfeydd ac orielau sy'n ddibynnol ar awdurdodau lleol, er bod croeso, wrth gwrs, i chi wneud cais.

Darllenwch ymlaen i gael rhagor o wybodaeth.



Collective Edinburgh, Collective Observations: Lisa Williams, Respond and Reimagine. Courtesy Collective Edinburgh

# 3. Cyn i chi wneud cais

## Yr hyn y gwnawn ei ariannu

Eleni, mae un nod allweddol i raglen Ailddychmygu. Rydym am ariannu prosiectau a fydd:

- yn helpu sefydliadau i ailddychmygu eu gwaith gyda chasgliadau.

Fel rhan o'r nod hwn, dylai ceisiadau ddod o dan un neu fwy o'r categorïau hyn:

- Perthnasedd
- Ymchwil a rhesymoli
- Gwytnwch

Mae grantiau Ailddychmygu wedi'u cynllunio i fod yn eang ac yn hyblyg; gallwn gefnogi amrywiaeth o brosiectau o dan y penawdau hyn. Fodd bynnag, rydym wedi nodi rhai gweithgareddau posibl isod fel enghreifftiau:

### Perthnasedd

- gweithio gyda chynulleidfaoedd i ddatgelu gwrthrychau a straeon o arwyddocâd lleol
- cynyddu mynediad y cyhoedd at gasgliadau ac annog ymdeimlad o berchnogaeth
- ail-gyd-destunoli gwrthrychau anhysbys a/neu ddadleuol
- defnyddio casgliadau i siapio gwaith rhaglennu, addysg ddiwylliannol a phartneriaethau strategol
- archwilio potensial casgliadau i gefnogi gwaith creu lleoedd a dangos tystiolaeth o draweffaith cymdeithasol

### Ymchwil a rhesymoli

- adnabod gwrthrychau prin neu arbennig ar gyfer gwaith ymgysylltu ac ymchwil dyfnach
- datgelu bylchau mewn casgliadau ac archwilio cyfleoedd ar gyfer caffael yn y dyfodol
- ailedrych ar waith rheoli casgliadau, gan asesu dogfennaeth a gwrthrychau
- cefnogi staff i archwilio dulliau o ddychwelyd, adfer neu waredu gwrthrychau'n foesegol
- archwilio dulliau neu atebion radical o ran trosglwyddo, storio a digido gwrthrychau
- ystyried cynaliadwyedd a chyfrifoldeb amgylcheddol mewn perthynas â chasgliadau

### Gwytnwch

- sefydlu rhwydweithiau arbenigol neu grwpiau cynghori i lunio a rhannu arfer gorau neu becynnau cymorth
- archwilio potensial casgliadau o ran creu incwm a chynyddu maint cynulleidfaoedd
- dod â gwaith hwyluso neu gymorth arbenigol i mewn er mwyn annog perchnogaeth dros waith casgliadau ledled y sefydliad
- darparu hyfforddiant, creu adnoddau neu gefnogi staff a gwirfoddolwyr i hybu sgiliau, morâl a chadw staff a gwirfoddolwyr
- cynyddu capasiti staff i fynd i'r afael ag ôl-groniadau casgliadau a/neu i siapio gwaith gofal casgliadau tymor hwy
- arfogi sefydliadau i fanteisio ar Ryddhad Treth Arddangosfeydd Amgueddfeydd ac Orielau

# 3. Cyn i chi wneud cais

Yn eich cais, gallwch ddweud wrthym yn eich geiriau eich hun beth rydych chi'n gobeithio y bydd eich prosiect yn ei gyflawni, a sut byddai llwyddiant neu fethiant yn edrych i chi. Ym mhob achos, rydym yn disgwyl i weithgareddau gael traweffaith ac i fod yn hygyrch. Mae gennym hefyd rai blaenoriaethau o ran canlyniadau y byddwn yn awyddus i'w cefnogi, sy'n ymwneud â'r categorïau uchod:

– Tyfu cynulleidfaoedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd
– Cynyddu capasiti ac arbenigedd mewn gwaith casgliadau/gweithlu casgliadau
– Annog partneriaethau, dysgu ar y cyd a chynaliadwyedd yn y sector

Mae grantiau Ailddychmygu yn gyfle i roi cynnig ar ddulliau gwahanol yn ystod cyfnod heriol. Fodd bynnag, nid ydym yn gofyn i chi greu prosiectau cwbl newydd. Yn lle hynny, hoffem glywed am syniadau rydych chi wedi bod yn eu hystyried neu'n eu datblygu ond heb allu eu hariannu neu ddarparu adnoddau ar eu cyfer. Fel arall, efallai eich bod wedi profi peth gwaith gyda'ch casgliadau, a'ch bod yn awyddus nawr i ehangu ymhellach.

Ein nod yw rhoi'r amser a'r gofod i chi archwilio anawsterau dybryd yn ymwneud â chasgliadau a chanfod neu arbrofi gydag atebion newydd. Gallwch gynnwys cyllid ar gyfer aelodau staff, cymorth llawrydd, cyngor arbenigol a threuliau gwirfoddolwyr yn eich cyllideb.

Drwy ein cyllid, rydym am sicrhau bod y sector yn datblygu ac yn ffynnu yn y tymor hwy. Ni ddylid defnyddio grantiau Ailddychmygu i leihau capasiti'r gweithlu, e.e. drwy dalu costau dileu swyddi, neu i helpu sefydliad i ddirwyn ei weithrediadau i ben. Byddwn yn rhoi sylw manwl i'r angen am gymorth a sut y gellid cynnal canlyniadau prosiect ar ôl iddo ddod i ben.

Yn anffodus, ni allwn ddarparu cyllid ar gyfer:

– Gweithgarwch ôl-weithredol – ni ddylai eich prosiect fod wedi dechrau cyn bod disgwyl i chi gael penderfyniad gennym ni. Cyfeiriwch at y dyddiadau a restrir isod.
– Gwaith cyfalaf graddfa fawr a/neu brosiectau atgyweirio sylweddol.
– Costau rhedeg tymor hir.
– Gorbenion, oni bai eu bod yn benodol i'ch prosiect.
– Unigolion i ymgymryd ag ymchwil neu hyfforddiant (os yw hyn yn berthnasol i chi, efallai yr hoffech ddarllen mwy am grantiau curadurol Jonathan Ruffer: artfund.org/supporting-museums/programmes/jonathan-ruffer-curatorial-grants).
– Prosiectau y mae eu prif amcanion y tu hwnt i flaenoriaethau'r cynllun hwn.

# 3. Cyn i chi wneud cais

## Pwy y gwnawn ei ariannu

Eleni, mae ein cyllid ar gael i sefydliadau nid-er-elw a gyfansoddwyd yn ffurfiol ac sy'n dal casgliadau parhaol. Gall y casgliadau hyn gynnwys gwrthrychau gwyddonol, celfyddyd gain, dylunio a chelfyddyd gymhwysol, hanes cymdeithasol ac astudiaethau naturiol, ac archaeoleg. Mae sefydliadau cymwys yn cynnwys amgueddfeydd, orielau, tai hanesyddol ac amgueddfeydd prifysgol. Rhaid i ymgeiswyr fod wedi ymrwymo i gyflawni gweithgarwch sy'n cynyddu mynediad y cyhoedd at gasgliadau, sydd o fudd i'r cyhoedd, ac sy'n cyd-fynd ag amcanion elusennol Art Fund.

Gallwch wneud cais fel un sefydliad, mewn partneriaeth, neu gyda chasgleb. Byddwn yn gofyn i chi nodi prif ymgeisydd os bydd dau sefydliad neu fwy yn gwneud cais gyda'i gilydd.

Gall sefydliadau heb gasgliadau, fel rhwydweithiau proffesiynol neu ofodau celf gyfoes, fod yn rhan o brosiectau Ailddychmygu fel partneriaid. Fodd bynnag, ni fyddant yn gymwys i arwain ar geisiadau yn 2025.

Yn yr un modd, nid yw derbynwyr blaenorol grantiau Ailddychmygu/Ymateb ac Ailddychmygu yn gymwys i wneud cais eleni. Os ydych chi'n gyn-dderbynnydd grant neu'n dderbynnydd grant presennol, gallwch gefnogi cais fel partner, ond peidiwch â gwneud cais fel y sefydliad arweiniol.

Dylai eich sefydliad(au):

– Weithredu yn ôl safonau arfer gorau a/neu fod â hanes cryf o gyflawni gweithgarwch cyhoeddus o ansawdd uchel. Gallech ddangos hyn drwy gynlluniau achredu (fel y rhai a reolir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr), geirda gan bartneriaid, prosiectau llwyddiannus yn y gorffennol, neu wobrau rydych chi wedi'u hennill.

Os ydych chi'n amgueddfa heb achrediad, efallai y byddwn ni'n ceisio cyngor gan bartneriaid dibynadwy o'r sector (fel MDUK) er mwyn deall eich sefydliad a'ch anghenion yn well.

Rydym yn eich annog hefyd i archwilio beth allai fod ar gael drwy eich sefydliad Datblygu Amgueddfeydd lleol neu'ch sefydliad cymorth sector cenedlaethol.

Yn anffodus, nid ydym yn gallu derbyn ceisiadau gan:

– Sefydliadau masnachol neu er elw, gan gynnwys Cwmnïau Cyfyngedig Preifat, Cwmnïau Cyfyngedig Cyhoeddus, Cwmnïau Anghyfyngedig, neu Fasnachwyr Unigol.
– Partneriaethau Cyffredinol, Partneriaethau Cyfyngedig, neu Bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig.
– Sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth, drama, dawns a ffurfiau ar gelf y tu allan i'r celfyddydau gweledol.
– Unigolion neu gyrff anghorfforedig yn uniongyrchol (oni bai bod cais yn cael ei gyflwyno gan neu gyda chytundeb ysgrifenedig ffurfiol sefydliad cymwys [fel y disgrifir uchod]).
– Ysbytai ac addoldai.
– Ysgolion neu sefydliadau addysg uwch.

# 3. Cyn i chi wneud cais

## Cyllid sydd ar gael

Drwy'r rhaglen hon gallwn gynnig grantiau o rhwng £10,000 a £50,000. Yn gyffredinol, mae prosiectau Ailddychmygu yn para hyd at ddwy flynedd.

Yn eich cais, dywedwch wrthym am unrhyw gyfraniadau y gallwch eu darparu, naill ai ar ffurf arian neu gefnogaeth mewn nwyddau. Yn yr un modd, dywedwch wrthym am gefnogaeth ychwanegol gan bartneriaid a/neu gyllidwyr eraill.

Gall prosiectau a ariennir gynnwys:

- cymorth i aelodau staff presennol
- creu swyddi newydd neu adfer swyddi sydd wedi'u dileu/wedi'u rhewi
- oriau estynedig neu lenwi i mewn ar gyfer swyddi
- cymorth llawrydd neu gontract am hyd y gweithgareddau.

Os ydych chi'n gofyn i ni ddarparu cyllid ar gyfer aelod presennol o staff, bydd angen i chi gyfrannu rhywfaint o arian at y swydd. Bydd angen i chi esbonio hefyd sut y bydd ein cyllid yn eich helpu i ailddychmygu eich gwaith gyda chasgliadau, a beth fydd yn digwydd i'r swydd ar ddiwedd y prosiect Ailddychmygu.

Os ydych chi eisiau creu swydd newydd, gallwch ofyn i ni am hyd at 75% o'r cyflog yn y flwyddyn gyntaf a hyd at 50% o'r cyflog yn yr ail flwyddyn.

Bydd angen i chi gynnwys y costau ar gyfer staff yn eich cyllideb a'u cysylltu â'r gweithgarwch rydych chi'n bwriadu ei gyflawni gyda'r cyllid. Byddwn yn ystyried pethau fel traweffaith, gwaddol a thâl teg mewn perthynas â staffio.

Mae'n bwysig i ni bod ein cyllid yn cefnogi arferion recriwtio cynhwysol. Os ydych chi'n bwriadu cyflogi staff newydd neu weithwyr llawrydd, meddyliwch am amrywiaeth, canllawiau cyflog a thryloywder yng nghyd-destun swyddi. Cymerwch olwg ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan Icon, yr ymgyrch Swyddi Amgueddfeydd Teg neu feincnodau eraill.

Efallai y byddwn yn cynnig grant i chi sy'n is na'r swm y gwnaethoch gais amdano. Gallwn drafod gyda chi sut mae hynny'n effeithio ar eich gweithgarwch a'ch canlyniadau arfaethedig.

## Pryd i wneud cais

Mae un rownd ariannu yn 2025:

- Bydd ceisiadau'n agor ddydd Mawrth 1 Gorffennaf.
- Bydd ceisiadau'n cau ddydd Mawrth 12 Awst.
- Ein nod fydd rhannu penderfyniadau gydag ymgeiswyr erbyn canol mis Tachwedd.

Rydym yn bwriadu cynnal cymorthfeydd a gweminarau ariannu i gefnogi'r broses ymgeisio. Os oes gennych ofynion mynediad sy'n eich atal rhag mynychu gweminar, byddem yn falch o drefnu galwad ffôn un-i-un ar wahân neu gallwn ymateb i gwestiynau ysgrifenedig.

Yn anffodus, oherwydd capasiti a galw, ni fyddwn mewn sefyllfa i drafod eich syniadau ar sail ad hoc. Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol ynghylch y broses ymgeisio, anfonwch e-bost atom drwy programmes@artfund.org.

# 4. Eich cais

## Sut i wneud cais

Byddwn yn derbyn yr holl ffurflenni cais a dogfennau ategol drwy e-bost. Ni fyddwn yn defnyddio'r ffurflen ar-lein oherwydd newidiadau i'n system. Llwythwch y templedi sydd ar ein gwefan i lawr, cwblhewch nhw, a'u hanfon at programmes@artfund.org (gan roi klloyd@artfund.org yn y llinell Cc).

Gwnewch yn siŵr fod y ffurflen gais yn aros fel ffeil Word (yn hytrach na PDF); bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i ni brosesu'r wybodaeth.

## Llenwi'r ffurflen gais

Yn y ffurflen gais byddwn yn gofyn i chi:

- Ddweud popeth wrthym am eich prosiect neu'ch gweithgarwch arfaethedig, gan gynnwys ei bwrpas.
- Rhoi'r cyd-destun a'r rhesymeg ar gyfer y syniad – byddwn yn disgwyl i'ch prosiect fod wedi'i siapio gan brofiadau diweddar a'ch sefyllfa bresennol.
- Disgrifio pam mae eich prosiect yn angenrheidiol ac yn bwysig.
- Egluro sut bydd y prosiect yn ailddychmygu eich gwaith gyda chasgliadau.
- Nodi sut bydd yr elfennau amrywiol yn cael eu rheoli.
- Nodi unrhyw risgiau ac esbonio sut byddant yn cael eu lliniaru.
- Sôn wrthym am eich buddiolwyr arfaethedig a sut bydd eich gweithgarwch yn ymgysylltu â nhw.
- Rhannu sut byddai llwyddiant a methiant yn edrych i'ch sefydliad, a sut byddwch chi'n myfyrio ar hyn.
- Darparu cyllideb sy'n rhoi dadansoddiad o gostau a ffynonellau incwm.

## Rhestr wirio cais a dogfennau ategol

Bydd angen y dogfennau canlynol arnom fel gwybodaeth ategol:

- Cyllideb (mae templed ar gael ar ein gwefan). Gallwch gynnwys arian, cefnogaeth mewn nwyddau ac amser gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol, er nad yw'r elfennau hyn yn ofynnol.
- Briffiau neu ddisgrifiadau swydd drafft ar gyfer unrhyw weithwyr llawrydd neu aelodau newydd o staff.
- Cynllun cyflawni sy'n nodi gweithgareddau, cerrig milltir, cyfnodau adolygu a dyddiadau.
- Llythyr(au) o gefnogaeth gan bartner(iaid) ffurfiol.

Dogfennau ategol dewisol

Os ydynt yn berthnasol, dylech hefyd rannu:

- Hyd at dri llythyr cefnogaeth (sy'n dangos angen/galw ehangach am y prosiect).
- Hyd at chwe delwedd (sy'n helpu i esbonio'r prosiect).

Noder: os ydych chi'n gwneud cais am gostau staff, bydd angen i chi gynnwys llythyr o gefnogaeth gan eich Cyfarwyddwr neu'ch Bwrdd i ddangos perchnogaeth ehangach eich sefydliad dros y prosiect. Efallai yr hoffech hefyd ddarparu dolen at strategaeth eich sefydliad i ddangos sut mae'r swydd yn cyd-fynd â'ch uchelgeisiau a'ch cyfeiriad tymor hwy. Fel y nodwyd yn flaenorol, rhaid i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad ystyrlon i amrywiaeth a chynaliadwyedd.

# 5. Beth sy'n digwydd nesaf

## Sut rydym yn asesu ceisiadau

Ar ôl i chi gyflwyno eich cais, bydd yn cael ei ddyrannu i un o weithwyr achos y rhaglen i'w asesu.

Os bydd gan eich gweithiwr achos unrhyw gwestiynau am eich cais, neu os byddant yn credu bod rhywbeth ar goll, byddant yn cysylltu â chi i gael rhagor o wybodaeth.

Rydym yn disgwyl cael nifer fawr o geisiadau. Bydd y rhain yn cymryd amser i'w prosesu, ac efallai na fydd gennym gwestiynau mewn perthynas â'ch cais chi, felly peidiwch â phoeni os na fydd eich gweithiwr achos wedi cysylltu â chi. Os nad yw eich cais yn gymwys, byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn yn gynnar yn y cyfnod asesu. Darllenwch y canllawiau'n ofalus i sicrhau bod eich prosiect yn cyd-fynd yn dda â'r rhaglen hon.

Pan fyddwn yn asesu eich cais, byddwn yn ceisio ateb nifer o gwestiynau. Byddem yn eich annog i ystyried y cwestiynau hyn wrth i chi ddatblygu eich syniad a chwblhau eich ffurflen. Cymerwch eich amser wrth i chi ysgrifennu'r cais, gan gyflwyno'r achos cryfaf posibl dros gael cyllid. Mae'n debygol y byddwn yn cael llawer mwy o geisiadau nag y gallwn eu cefnogi; bydd angen i ni flaenoriaethu'r grantiau gan ystyried angen, ansawdd, cyrhaeddiad a thraweffaith.

## Chi

- Ydych chi'n gymwys i wneud cais am y cyllid hwn?
- Ydych chi'n newydd i raglen Ailddychmygu?
- Ydych chi'n gwneud cais mewn partneriaeth ag unrhyw un arall?

## Eich prosiect chi

- O ble ddaeth eich syniad ac a yw'n berthnasol i'ch sefyllfa bresennol?
- Pam mae'r prosiect hwn yn angenrheidiol ac yn bwysig, pwy fydd yn elwa ohono, a beth yw'r traweffaith tebygol?
- A yw eich prosiect yn cyd-fynd yn agos â nod ein rhaglen? Ydych chi wedi cyflwyno hyn mewn ffordd glir a pherswadiol?
- Pwy hoffech chi iddynt gael budd ohono, a sut fyddwch chi'n mynd ati i sicrhau hyn?
- Pa mor dda ydych chi'n adnabod eich buddiolwyr?
- Ydych chi wedi ystyried sut mae tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn edrych yng nghyd-destun eich prosiect chi? A yw eich cynnig yn dangos ymrwymiad cryf a chyraeddadwy i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant?
- Ydych chi wedi ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol y prosiect hwn? Sut ydych chi wedi dangos hyn yn eich cynnig?

## Cynllunio a rheoli

- A yw eich gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda gydag adnoddau digonol wedi'u darparu ar eu cyfer?
- A yw eich amserlen yn realistig ac yn gyraeddadwy?
- A yw eich sefydliad mewn sefyllfa i reoli'r gweithgarwch hwn?
- Pwy fydd yn cyflwyno'r gweithgareddau, ac a oes ganddyn nhw'r sgiliau a'r profiad perthnasol?
- Beth yw'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn ac a oes cynllun i'w lliniaru?
- Sut mae eich sefydliad wedi dangos ei ymrwymiad i'r prosiect hwn?

# 5. Beth sy'n digwydd nesaf

## Gwerthuso a gwaddol

- Beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni a/neu ei ddysgu drwy eich prosiect?
- Sut fyddwch chi'n nodi ac yn mesur llwyddiant a methiant, a sut fyddwch chi'n casglu, yn defnyddio ac yn rhannu'r hyn a ddysgir?
- Beth fydd gwaddol y prosiect hwn?
- Os yw'r prosiect neu'r swydd i barhau y tu hwnt i'r cyllid hwn, sut bydd yn cael ei gynnal?

## Costau

- A yw eich cyllideb yn gywir ac yn rhesymol?
- A yw'r prosiect hwn yn cynrychioli gwerth da am arian?

## Safoni/cydbwyso

Unwaith y bydd y gweithwyr achos wedi cwblhau eu hasesiadau, byddwn hefyd yn mynd drwy broses o safoni neu gydbwyso i benderfynu ar y blaenoriaethau uchaf i gael cefnogaeth. Rydym yn debygol o ystyried pethau fel angen; risg; math, maint a hanes ariannu'r sefydliadau sydd wedi gwneud cais; lleoliad a buddiolwyr y prosiectau, a'r ystod o weithgareddau sydd wedi'u cynnig.

## Gwneud penderfyniadau

Bydd grantiau'n cael eu cymeradwyo gan banel o staff ac ymddiriedolwyr Art Fund.

Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn egluro'r penderfyniad ac yn cynnig adborth byr.

## Cadarnhad o gynnig grant

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn anfon dogfennau'r cynnig atoch drwy e-bost. Bydd hyn yn cynnwys:

- llythyr yn cadarnhau eich cynnig grant
- gwybodaeth am waith gwerthuso prosiectau
- dolen i'n contract grant, y gellir ei lofnodi'n ddigidol.

Yn dibynnu ar natur eich prosiect, efallai y byddwn yn ychwanegu rhai amodau grant a fydd yn cael eu monitro.

# 5. Beth sy'n digwydd nesaf

## Sut i hawlio eich grant

### Manylion banc

Efallai y bydd angen i'n tîm cyllid gadarnhau eich manylion banc gyda chi cyn talu grant.

### Amserlen dalu

Bydd grantiau'n cael eu talu yn y ffordd ganlynol:

- Ar ddechrau eich prosiect, gallwch hawlio 90% o'r grant ymlaen llaw.
- Pan fyddwch wedi gorffen cyflawni gweithgarwch y prosiect, gallwch gyflwyno hawliad am daliad o'r 10% olaf o'r grant.

Rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o ddeiliaid grantiau yn hawlio'r 90% cyntaf o fewn tri mis i'n cynnig grant. Os na allwch chi fanteisio ar y grant, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl, gan ein bod ni'n disgwyl y bydd gormod o geisiadau am yr arian.

Os bydd eich costau neu'ch gweithgareddau arfaethedig yn newid, rhowch wybod i ni. Os oes angen i chi ailgyflunio eich cyllideb neu'ch amseriadau, cysylltwch â'ch gweithiwr achos i drafod y newidiadau. O ystyried yr amgylchiadau sy'n parhau, ein nod yw bod mor hyblyg â phosibl.

I hawlio'r 90% cyntaf o'ch grant:

- Llofnodwch ein contract digidol.
- Cwblhewch ein templed(i) gwerthuso.
- Darparwch anfoneb neu gais am daliad i Art Fund am 90% o swm y grant.

I hawlio'r 10% olaf o'r grant, cyflwynwch:

- ddatganiad terfynol o wariant, sy'n dangos sut y gwnaethoch chi wario'r grant.
- gwerthusiad ac unrhyw ddelweddau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.
- anfoneb am y gweddill.

Gall eich gweithiwr achos ofyn am dystiolaeth o wariant ar gyfer costau uwchlaw £1,000 (e.e. anfonebau, derbynebau), felly cadwch y wybodaeth hon yn ddiogel nes bod y grant wedi'i gau.

Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn disgwyl i'r cyllid fod wedi'i ymrwymo'n llawn o fewn dwy flynedd i'r cynnig grant. Gellir cyflwyno adroddiadau terfynol i Art Fund yn fuan ar ôl hyn.

### Gwerthuso

Rydym yn deall eich bod yn gweithio dan bwysau ac nad yw cwblhau adroddiadau ar gyfer cyllidwyr yn flaenoriaeth i chi. Rydym yn parhau i fireinio ein model gwerthuso i sicrhau ei fod yn syml, yn ysgafndroed ac yn darparu gwybodaeth i bawb sydd ynghlwm â'r rhaglen.

Fel cyllidwr, mae gennym ddiddordeb mewn dysgu o ehangder y prosiectau. Byddwn yn ceisio gwerthuso'r hyn y gellir ei ddysgu o'r llwyddiannau a'r methiannau y byddwch yn dod ar eu traws o bosibl wrth geisio cyflawni eich nodau. Rydym yn debygol o ddefnyddio model Failspace fel rhan o'n fframwaith gwerthuso.

Rydym am annog sefydliadau drwy'r rhaglen hon i fyfyrio ac i fod yn chwilfrydig ac yn agored, yn seiliedig ar yr egwyddor ein bod i gyd yn dysgu ar ein gorau pan fyddwn yn cydnabod llwyddiannau a methiannau.

Efallai y byddwn yn gofyn i ddeiliaid grantiau unigol gymryd rhan mewn galwadau ffôn neu weithdai dilynol i hyrwyddo dysgu gan gyfoedion. Os byddwn am wneud hynny yn eich achos chi, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

# 5. Beth sy'n digwydd nesaf

## Sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu gyda ni am eich grant a'ch gweithgarwch

Rydym yn eiriol dros y sector ac yn cydweithio â chyrff eraill i hyrwyddo arfer gorau ac i gefnogi newid cadarnhaol. Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth a mewnwelediadau a gafwyd o brosiectau a ariennir er mwyn annog ffyrdd newydd a gwell o weithio.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan drwy rannu eich profiadau gyda'n haelodau, ein rhoddwyr a'r cyhoedd yn ehangach drwy sianeli fel y cyfryngau cymdeithasol, https://www.artfund.org/ a'n cylchgrawn, *Art Quarterly*.

Fel rhan o'r mudiad #opengrants, efallai y byddwn yn cyhoeddi manylion pob prosiect Ailddychmygu i'r llwyfan 360 Giving. Mae'r ffynhonnell ddata hon yn ddefnyddiol i gyllidwyr, fel y gallwn weld i ble mae'r arian yn mynd, ond hefyd i ymgeiswyr am grantiau, fel eu bod yn deall y mathau o bethau y bydd gwahanol gyllidwyr yn eu cefnogi. Gallwch gael rhagor o wybodaeth a chwilio'r gronfa ddata yma:

Grantnav.threesixtygiving.org

## Cyhoeddi a'r wasg

Rydym am i grantiau Ailddychmygu arddangos y rôl hanfodol y mae amgueddfeydd ac orielau yn ei chwarae yn y gymdeithas. Byddwn yn gweithio gyda chi wrth gynllunio cyhoeddiadau i'r wasg ac yn hyrwyddo newyddion sy'n gysylltiedig â'ch prosiect drwy ein sianeli cyfathrebu.

Cysylltwch â Zosia Gamgee, Rheolwr Cyfathrebu, ar ZGamgee@artfund.org i gydlynu cynlluniau.

Gallwch hefyd anfon e-bost at media@artfund.org gydag ymholiadau cyffredinol.

## Delweddau

Efallai y byddwn mewn cysylltiad uniongyrchol yn ystod eich prosiect i ofyn am ddelweddau sy'n cyfleu gwaith grantiau Ailddychmygu. Heblaw am hynny, yr unig amser arall y byddwn yn gofyn am ddelweddau yw pan fyddant yn cael eu cyflwyno ynghyd â'ch gwerthusiad ar ôl i'ch prosiect neu'ch gweithgareddau ddod i ben.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chyflenwi delweddau, sut byddant yn cael eu defnyddio, neu hawlfraint, cysylltwch ag images@artfund.org.

# 6. Bod yn rhan o'n rhwydwaith

## Cydnabod Art Fund

Er mwyn cael y gorau o'n partneriaeth, gofynnwn i chi gyfeirio at Art Fund ym mhob deunydd hyrwyddo perthnasol sy'n gysylltiedig â'ch grant.

Pan fyddwch yn cydnabod ein cefnogaeth, rydych:

- yn diolch i'n haelodau a'n rhoddwyr Tocyn Celf Cenedlaethol am wneud y gefnogaeth yn bosibl.
- yn cyflwyno mwy o bobl i'r hyn rydyn ni'n ei wneud.
- yn helpu i ddenu mwy o ymwelwyr i'ch arddangosfeydd a'ch digwyddiadau, boed yn y cnawd neu ar-lein.

Mae canllawiau pellach ar sut a ble y dylech ein cydnabod ar gael i'w llwytho i lawr o'r dudalen we hon:

https://www.artfund.org/professional/promote-your-venue

Y llinell gydnabod ar gyfer y grant hwn yw: 'gyda chefnogaeth Art Fund'.

Er enghraifft: 'Gwnaed y prosiect hwn yn bosibl gyda chefnogaeth Art Fund.'

Cysylltwch â'r tîm Marchnata Amgueddfeydd yn museums@artfund.org i gael cytundeb ar yr holl ddeunyddiau, gan ganiatáu o leiaf dri diwrnod gwaith i ni ymateb.

Hoffem siarad â chi hefyd ynghylch ymuno â'n rhwydwaith Tocyn Celf Cenedlaethol o dros 900 o leoliadau partner ledled gwledydd Prydain. Drwy gynnig mantais i ymwelwyr sydd â Thocyn Celf Cenedlaethol, gallwch gyrraedd cynulleidfa newydd o bobl sy'n mwynhau diwylliant, cynyddu nifer eich ymwelwyr a'ch incwm, a chael mynediad at ystod o wasanaethau rhad ac am ddim sydd wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer amgueddfeydd ac orielau. Gallwch ddysgu mwy am ehangu eich cynulleidfa gydag Art Fund yma.

Cysylltwch â Jennie Jiricny (jjiricny@artfund.org) os hoffech ymuno â'r rhwydwaith a gwneud y mwyaf o gyfleoedd marchnata gyda'n 135,000 o aelodau. Byddwn hefyd yn cysylltu â chi gyda manylion pellach wrth drefnu gwaith papur eich cynnig.

# 7. Telerau ac amodau

Mae'r amodau canlynol ynghlwm wrth grantiau Ailddychmygu (y Grant):

1. CAIS AM Y GRANT
   Dim ond ar gyfer y prosiect neu'r gweithgareddau rydych chi wedi'u nodi fel rhai fydd yn elwa o'r Grant ar eich ffurflen gais am Grant (y Prosiect) y dylid defnyddio'r Grant ac nid at unrhyw ddiben arall o gwbl (rhaid i gostau am staffio fod yn gysylltiedig â'r Prosiect).

2. TAW
   Nid yw'r Grant yn dâl am unrhyw gyflenwad trethadwy at ddibenion TAW.
   - 2.1. Rydych yn cydnabod nad yw rhwymedigaeth Art Fund yn ymestyn i dalu unrhyw symiau mewn perthynas â threth ar werth (TAW) yn ogystal â'r Grant.
   - 2.2. Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, neu os byddwch wedyn yn dod yn agored i gofrestru ar gyfer TAW, rhaid i chi gadw cofnodion cywir a chyfredol a rhaid i chi sicrhau bod y cofnodion hynny ar gael a bod copïau'n cael eu rhoi i Art Fund pan ofynnir amdanynt.

3. AMSERLEN DALU
   Bydd y Grant yn cael ei dalu i chi yn y camau canlynol:
   - 3.1. 90% ar ôl i chi ddychwelyd contract wedi'i lofnodi, templed gwerthuso wedi'i gwblhau ac anfoneb am y swm sy'n cael ei hawlio atom.
   - 3.2. 10% ar ôl i ni gael yr adroddiad gwerthuso y cyfeirir ato yng nghymal 4 isod, crynodeb o'r gwariant (gellir gofyn am dystiolaeth o wariant ar gyfer symiau uwchlaw £1,000) ac anfoneb am y swm sy'n cael ei hawlio.

4. GWERTHUSO AC ADRODD
   - 4.1. Byddwch yn mynychu gweithdy gwerthuso ac yn cwblhau templed gwerthuso cyn hawlio'r 90% cyntaf o'ch grant ac yn cyflwyno adroddiad gwerthuso wrth hawlio'r 10% olaf.
   - 4.2. Pan fyddwn yn gwerthuso'r rhaglen hon, gallwn ofyn i chi gymryd rhan mewn cyfweliadau dros y ffôn, gweithgarwch arolwg neu weithdai cyfoedion.
   - 4.3. Gallwn gyhoeddi a rhannu data sy'n gysylltiedig â'ch grant ar 360 Giving fel rhan o'r mudiad Grantiau Agored; mae hyn yn ychwanegol at ein sianeli ein hunain.
   - 4.4. Gallwn gytuno ar amserlen adrodd gyda chi, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i chi ein diweddaru'n rheolaidd ynghylch canlyniadau eich Prosiect a gwariant yn erbyn y Grant.

5. CYDNABOD EIN CEFNOGAETH
   Rhaid cydnabod ein cyfraniad at y Prosiect ym mhob llenyddiaeth a/neu ddeunyddiau eraill sy'n cael eu creu gennych i roi cyhoeddusrwydd i'r Prosiect gan gynnwys (ymhlith eraill) ddatganiadau i'r wasg, tudalennau gwe, e-gyfathrebiadau, ffilm neu fideo hyrwyddo, hysbysebion yn y wasg, posteri, taflenni a llyfrynnau am y Prosiect. Byddwch yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod unrhyw sefydliadau partner yn gwneud yr un fath.

6. Rhaid cydnabod ein cyfraniad at y Prosiect drwy ddefnyddio'r llinell gydnabod 'gyda chefnogaeth Art Fund' yn gywir a, phan fo modd, logo Art Fund. Rhaid cyflwyno pob defnydd o'r logo i ni i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi/argraffu. Rydych yn cytuno i gynnal dolen at hafan Art Fund yn www.artfund.org ar unrhyw dudalennau gwe rydych chi'n eu cynnal mewn perthynas â'r Prosiect. Byddwch yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod unrhyw sefydliadau partner yn gwneud yr un fath.

# 6. Terms and conditions

7. Ni fyddwch yn defnyddio enw na logo Art Fund mewn ffordd a allai effeithio'n andwyol ar ddelwedd Art Fund neu achosi unrhyw gyhoeddusrwydd negyddol neu a allai fel arall niweidio neu ddifrodi ein henw da a'n safle.

8. Byddwch yn trefnu i'n llenyddiaeth aelodaeth a'n paneli arddangos gael eu harddangos yn amlwg bob amser ym mhrif gyntedd yr amgueddfa, gyda maint, dyluniad a lleoliad y paneli arddangos i'w cytuno ar y cyd. Rhaid i chi ofyn i ni am gyflenwadau o'n deunydd aelodaeth yn ôl yr angen.

9. CYHOEDDUSRWYDD A DELWEDDAU
    9.1. Rydych yn cytuno i weithio gyda ni yn ddidwyll er mwyn arddangos a hyrwyddo'r Prosiect drwy gydol Cyfnod y Prosiect. Gallai gweithgareddau o'r fath gynnwys (ymhlith eraill): hwyluso ymweliadau ar gyfer ein cefnogwyr; gweithgarwch ar-lein (gan gynnwys, er enghraifft, cyfweliadau a blogiau ar-lein), ac erthyglau nodwedd yn ein cylchgrawn *Art Quarterly*.
    9.2. Mae'r naill a'r llall ohonom yn cytuno y bydd pob datganiad i'r wasg, copi i'r we neu i'r wasg neu gyhoeddusrwydd cysylltiedig sy'n ymwneud â'r Prosiect yn cael ei gyflwyno i'r llall i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig ymlaen llaw cyn ei gyhoeddi. Gallwn gyhoeddi swm a diben y Grant mewn unrhyw ffordd y byddwn yn ei hystyried yn addas, er y byddwn yn ymgynghori â chi ymlaen llaw.
    9.3. Os gofynnir i chi wneud hynny, rydych hefyd yn cytuno i roi detholiad cynrychioliadol o ddelweddau digidol cydraniad uchel sy'n cyfleu'r Prosiect i ni yn rheolaidd drwy gydol y Prosiect. Rhaid i'r delweddau hyn fod yn addas i'w cyhoeddi a hawlfraint wedi'i chlirio i'w defnyddio gennym ni (pan fo hawlfraint yn eiddo i drydydd parti). Pan mai chi fydd yn berchen ar yr hawlfraint, rydych yn cytuno i roi trwydded ddi-freindal, na ellir ei thynnu'n ôl, i ni ddefnyddio'r delweddau at holl ddibenion Art Fund.

10. CASGLIADAU
    Efallai y bydd angen i chi lofnodi telerau ac amodau ychwanegol Art Fund ar gyfer unrhyw brosiectau lle mae gweithiau celf neu wrthrychau yn cael eu caffael neu eu comisiynu gyda chefnogaeth o dan raglen grantiau Ailddychmygu os dymunwn hynny.

11. DATA PERSONOL
    Gall Art Fund gasglu eich data personol, gweler polisi data personol Art Fund ar gyfer rhoi grantiau yn ein polisi preifatrwydd a chwcis ar wefan Art Fund https://www.artfund.org/policies/privacy-policy

12. TERFYNU
    Ni fydd Art Fund yn atebol nac yn gyfrifol i chi am unrhyw fethiant i gyflawni, neu oedi wrth gyflawni, unrhyw un o'u rhwymedigaethau o dan yr amodau hyn a achosir gan ddigwyddiadau y tu hwnt i'w rheolaeth resymol ("Digwyddiad Force Majeure"). Ystyrir bod y rhwymedigaeth i gyflawni o dan yr amodau hyn wedi'i hatal am y cyfnod y bydd y Digwyddiad Force Majeure yn parhau, a chewch estyniad amser i gyflawni'r Prosiect, os bydd hynny'n briodol. Bydd Art Fund yn gwneud ymdrechion rhesymol i ddod â'r Digwyddiad Force Majeure i ben neu i ddod o hyd i ateb er mwyn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau er gwaethaf y Digwyddiad Force Majeure.

13. Os caiff unrhyw un o'r amodau a nodir yn yr amodau hyn eu torri mewn ffordd berthnasol, ac (a bwrw bod ei gywiro yn bosibl) os na chaiff y fath dor-amod ei gywiro o fewn 60 diwrnod, rydym yn cadw'r hawl, yn ôl ein disgresiwn llwyr, i fynnu bod y Grant yn cael ei ad-dalu'n gyfan gwbl neu'n rhannol. Byddwn yn arfer yr hawl hon drwy nodi mewn hysbysiad ysgrifenedig i chi swm y Grant sydd i'w ad-dalu. Bydd unrhyw swm a bennir yn yr hysbysiad ac nad yw'n cael ei ad-dalu o fewn 60 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad yn dwyn llog a godir yn ddyddiol ar gyfradd sylfaenol ein banc clirio ar y pryd.

Mae Grantiau Ailddychmygu yn cael eu hariannu gan Art Fund gyda chefnogaeth gan ymddiriedolaethau ac unigolion hael.

Roedd y rhaglen hon a'n hadroddiad ymchwil ar Effaith COVID-19 ar y sector amgueddfeydd yn bosibl diolch i gefnogaeth ac arweiniad ymgynghorwyr Wafer Hadley.

Clawr: Ymwelydd gydag As a Precursor to Folly (2021) gan Simeon Barclay, mewn arddangosfa yn Sioe Gelf Brydeinig 9, 2021-22, wedi'i osod yn Oriel Gelf Wolverhampton. Arddangosfa Deithiol Oriel Hayward a drefnwyd mewn cydweithrediad ag orielau ar draws dinasoedd Aberdeen, Wolverhampton, Manceinion a Plymouth, gyda chefnogaeth Art Fund. © Simeon Barclay.
Llun: Janie Airey/Art Fund 2022

Art Fund_

Elusen gofrestredig yw Art Fund sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (209174) ac yn yr Alban (SC038331)

Canllawiau wedi'u diweddaru ym mis Mehefin 2025